



Adroddiad Briffio Gweithdy 4

Adfywio iaith a llywodraethiant newydd

Paratowyd gan Dr Huw Lewis, Dr Elin Royles a'r Athro Wilson McLeod

Ebrill 2019



**THE UNIVERSITY
of EDINBURGH**



**Arts & Humanities
Research Council**

Gwefan: revitalise.aber.ac.uk

E-bost: revitalise@aber.ac.uk

Twitter: [@_revitalise](https://twitter.com/_revitalise)



Cynnwys

Crynodeb gweithredol

- Cyflwyniad
- Rôl gynyddol llywodraethau ym maes adfywio iaith
- Y berthynas rhwng llywodraeth a'r gymdeithas sifil wrth adfywio iaith
- Rôl deddfwriaeth a'r llysoedd o ran adfywio iaith
- Comisiynwyr iaith fel actorion newydd mewn ymdrechion i adfywio iaith
- Adfywio iaith fel gweithgaredd aml-lefel
- Arwyddocâd y lefel uwch-wladwriaethol ar gyfer ymdrechion i adfywio iaith

Atodiad: Rhaglen y gweithdy



Crynodeb gweithredol

- Mae'r papur hwn yn adrodd ar drafodaethau pedwerydd gweithdy prosiect Adfywio a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 14 a 15 Chwefror 2019. Teitl y gweithdy oedd '**Adfywio iaith a Llywodraethiant Newydd**' a'i nod oedd rhoi cyfle i asesu'n feirniadol rai o'r prif dueddiadau o ran sut y mae ymdrechion cyfoes i adfywio rhagolygon ieithoedd lleiafrifol yn cael eu llywodraethu. Nodir prif gasgliadau'r gweithdy isod.
- **Rôl gynyddol llywodraethau ym maes adfywio iaith (tt. 4-6)** Dros y degawdau diwethaf, mae llywodraethau - llywodraethau is-wladwriaethol fel arfer - wedi dod i'r amlwg fel actorion mwyfwy dylanwadol mewn llawer o ymdrechion i adfywio ieithoedd yn Ewrop. Mae hyn wedi golygu bod adfywio iaith mewn sawl man yn Ewrop wedi symud i ffwrdd o fod yn weithgaredd sydd wedi'i seilio'n bennaf ar y gymuned iaith ei hun sy'n gweithio drwy gyfrwng gwahanol sefydliadau yn y gymdeithas sifil.
- **Y berthynas rhwng llywodraeth a'r gymdeithas sifil wrth adfywio iaith (tt. 6-8).** Gall tensiynau godi rhwng llywodraethau a sefydliadau cymdeithas sifil pan fydd y cyntaf yn ymddangos fel actorion mwyfwy dylanwadol mewn ymdrechion i adfywio iaith. O ganlyniad, mae angen bwrw golwg beirniadol ar y mathau o weithgareddau sy'n gysylltiedig ag adfywio iaith y mae sefydliadau llywodraethol yn y sefyllfa orau i'w gweinyddu, a'r rhai lle mae gweithgarwch gan gymdeithas sifil yn fwy priodol ac effeithiol.
- **Rôl deddfwriaeth a'r llysoedd o ran adfywio iaith (tt. 8-9).** Mae effeithiau deddfwriaeth ar fywiogrwydd iaith yn mynd y tu hwnt i gynnig cadarnhad symbolaidd. Gall deddfwriaeth gyfrannu at gynllunio statws, drwy greu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith mewn amrywiaeth o beuoedd; gall hefyd hwyluso ymdrechion cynllunio caffael drwy warantu mynediad at addysg ieithoedd lleiafrifol. Gall y system llysoedd hefyd gyfrannu at ymdrechion i adfywio iaith mewn ffyrdd pwysig, ond bydd arwyddocâd y llysoedd yn aml yn dibynnu ar natur diwylliannau cyfreithiol a gwleidyddol y wladwriaeth.
- **Comisiynwyr iaith fel actorion newydd mewn ymdrechion i adfywio iaith (t. 10).** Mae gan gomisiynwyr iaith y potensial i weithredu fel ysgogwyr pwysig i ymdrech ehangach i adfywio iaith, er enghraifft drwy ddarparu trosolwg annibynnol ar weithredu polisiâu iaith. Eto i gyd, bydd effeithiolrwydd y swyddi hyn yn dibynnu llawer ar natur y ddeddfwriaeth sy'n eu creu. Ar ôl ei sefydlu, gall rheoli'r berthynas wleidyddol â'r llywodraeth fod yn heriol iawn i'r comisiynydd iaith hefyd.
- **Adfywio iaith fel gweithgaredd aml-lefel (tt.10-12).** Mae actorion ar lefel is-wladwriaethol wedi goruchwyllo'r rhan fwyaf o'r gweithgarwch diweddar ar draws Gorllewin Ewrop i gefnogi ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol. Ac eto, mae cryn arwyddocâd yn perthyn i strwythurau ar lefel y wladwriaeth a strwythurau ar lefel y cyfandir neu ar lefel fyd-eang hefyd. O ganlyniad, mae angen rhoi mwy o sylw i'r symudiad tuag at batrymau llywodraethu aml-lefel wrth geisio deall y ddeinameg wleidyddol sy'n sail i ddatblygu ymyriadau polisi sy'n ymwneud ag ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol.
- **Arwyddocâd y lefel uwch-wladwriaethol ar gyfer ymdrechion i adfywio iaith (tt 12-13).** Ceir tystiolaeth sy'n nodi y gall gweithgarwch adfywio iaith sy'n cael ei gynnal ar lefel Ewropeaidd, effeithio mewn ffyrdd pwysig ar waith a wneir gan actorion ar lefelau is. Gall hyn gynnwys manteision ymarferol sy'n deillio o rannu arferion gorau drwy wahanol fathau o rwydweithiau ieithoedd lleiafrifol. Gall manteision posibl hefyd fod yn rhai cysyniadol eu natur gan y gallai aelodau o gymuned iaith leiafrifol gael cynnig cyfle i godi uwchlaw normau disgrysiol hirsefydlog



Adfywio: Adroddiad Briffio Gweithdy 4

sy'n gysylltiedig â chyd-destun penodol eu gwladwriaeth, ac i fod yn agored i syniadau newydd, termau neu gysyniadau y gellir eu defnyddio i gyfleu eu safbwynt a'u nodau mewn modd newydd.



Adfywio iaith a llywodraethiant newydd

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r papur hwn yn adrodd ar **bedwerydd gweithdy'r prosiect Adfywio, a gynhaliwyd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd ar 14 a 15 Chwefror 2019**. Rhwydwaith ymchwil rhyngddisgyblaethol yw Adfywio, a gaiff ei ariannu gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (y Deyrnas Unedig), sydd â'r nod o astudio goblygiadau rhai o'r newidiadau cymdeithasol, economaidd, a gwleidyddol mawr a welir ar draws cymdeithasau gorllewinol i'n dealltwriaeth o'r modd y dylid llunio a gweithredu ymdrechion adfywio iaith cyfoes. Mae'r rhwydwaith yn dwyn ynghyd grŵp rhyngwladol o ymchwilwyr academiaidd sy'n cwmpasu'r celfyddydau, y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol, ynghyd â nifer o ymarferwyr polisi blaenllaw. Caiff y rhwydwaith ei arwain gan Dr Huw Lewis (Prifysgol Aberystwyth), yr Athro Wilson McLeod (Prifysgol Caeredin) a Dr Elin Royles (Prifysgol Aberystwyth).
- 1.2 Teitl y pedwerydd gweithdy oedd '**Adfywio iaith a llywodraethiant newydd**'. Nod y digwyddiad oedd rhoi cyfle i gyfranogwyr asesu'n feirniadol rai o'r prif dueddiadau o ran sut y mae ymdrechion cyfoes i adfywio rhagolygon ieithoedd lleiafrifol yn cael eu llywodraethu. Anogwyd y cyfranogwyr i ystyried y gwahanol fathau o actorion sy'n cyfrannu at y broses o ddatblygu a gweithredu gwahanol fentrau adfywio iaith, ynghyd â natur y berthynas rhwng rhai o'r gwahanol actorion hyn. Golygai hyn gloriannu'r berthynas rhwng sefydliadau llywodraethol ac anllywodraethol a'u dylanwad cymharol, yn ogystal â gwerthuso arwyddocâd gwahanol raddfeydd tiriogaethol – lleol, rhanbarthol, gwladol a rhyngwladol – ar gyfer ymdrechion i adfywio iaith. Ar y cyfan, roedd y gweithdy'n ceisio ystyried i ba raddau y dylai tueddiadau cyfredol ym maes llywodraethu polisi iaith ein hannog i ailfeddwl am y ddealltwriaeth draddodiadol o'r modd y dylid mynd ati i ymateb i'r her o adfywio iaith.
- 1.3 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r prif faterion a godwyd yn ystod y gweithdy, gan gyfeirio at gynnwys y pymtheg cyflwyniad a gyflwynwyd dros y ddau ddiwrnod, ynghyd â'r cwestiynau a'r sylwadau a ddilynodd yn ystod y cyfnodau trafod. Ceir rhagor o ddeunydd o'r gweithdy ar wefan y prosiect: <https://revitalise.aber.ac.uk>. Mae copi o raglen y gweithdy ar ddiwedd yr adroddiad.
- 1.4 Mae'r adroddiad hwn wedi'i drefnu yn ôl themâu ac wedi'i strwythuro yn ôl dimensiynau gwahanol y berthynas rhwng iaith ac economi a godwyd yn ystod y gweithdy. Felly mae'r adrannau sy'n dilyn yn canolbwyntio ar y themâu canlynol:
 - Rôl gynyddol llywodraethau ym maes adfywio iaith
 - Y berthynas rhwng llywodraeth a'r gymdeithas sifil wrth adfywio iaith
 - Rôl deddfwriaeth a'r llysoedd o ran adfywio iaith
 - Comisiynwyr iaith fel actorion newydd mewn ymdrechion i adfywio iaith
 - Adfywio iaith fel gweithgaredd aml-lefel
 - Arwyddocâd y lefel uwch-wladwriaethol ar gyfer ymdrechion i adfywio iaith

2. Rôl gynyddol llywodraethau ym maes adfywio iaith

- 2.1 Dros y ddeng mlynedd ar hugain diwethaf, mae ymchwilwyr academiaidd mewn meysydd fel gwyddor wleidyddol wedi tynnu sylw at y symudiad pwysig a welwyd yn y rôl y mae llywodraethau yn ei chwarae yn y broses o gydlynu cymdeithas. Cynigiwyd, ar draws ystod o wahanol beuoedd cymdeithasol ac economaidd, na ellir mwyach ystyried llywodraethau fel llunwyr penderfyniadau grymus. Yn hytrach, honnir ein bod wedi symud i sefyllfa lle mae actorion anllywodraethol, gan gynnwys gwahanol gyrff penodedig, hyd braich, ond hefyd corfforaethau



Adfywio: Adroddiad Briffio Gweithdy 4

preifat a sefydliadau cymdeithas sifil, yn chwarae rôl gynyddol bwysig yn natblygiad a gweithrediad polisi cyhoeddus. O ganlyniad mae cydnabyddiaeth gynyddol bod 'arweinwyr etholedig a swyddogion y llywodraeth yn chwaraewyr yn y gêm yn hytrach nag yn yrwyr yr injan' (Colebatch 2004:79).

- 2.2 Serch hynny, thema bwysig a ddaeth i'r amlwg yn ystod nifer o sesiynau'r gweithdy oedd, pan fydd y ffocws yn troi at y modd y mae ymdrechion i adfywio ieithoedd lleiafrifol wedi cael eu trefnu dros y blynyddoedd diwethaf, ein bod yn gweld tuedd ychydig yn wahanol. Fel y dadleuodd Huw Lewis ac Elin Royles yn eu cyflwyniad, ers diwedd y saithdegau, mae ymdrechion i adfywio iaith ledled gorllewin Ewrop, er enghraifft yng Nghatalonia, Gwlad y Basg, Cymru neu'r Alban, wedi cael eu nodweddu gan ymddangosiad llywodraethau – llywodraethau is-wladwriaethol fel arfer – fel actorion sy'n gynyddol bwysig a dylanwadol. Mae hyn wedi golygu bod adfywio iaith mewn sawl man yn Ewrop wedi symud i ffwrdd o fod yn weithgaredd sydd wedi'i seilio'n bennaf ar y gymuned iaith ei hun sy'n gweithio drwy gyfrwng gwahanol sefydliadau yn y gymdeithas sifil.
- 2.3 Roedd rôl gynyddol llywodraethau yn thema a adleisiwyd gan Meirion Prys Jones, a roddodd drosolwg o'r modd y mae 'llywodraethu' ymdrechion adfywio iaith yng nghyd-destun y Gymraeg yng Nghymru wedi esblygu dros y degawdau diwethaf. Dadleuodd fod dylanwad sefydliadau llywodraethol, gwleidyddion etholedig a gweision sifil wedi cynyddu'n gyson yn ystod y cyfnod hwn. Dechreuodd y broses hon, yn ôl Meirion Prys Jones, yn ystod yr wythdegau – cyn ffurfio llywodraeth ranbarthol yng Nghymru – pan ddechreuodd y Swyddfa Gymreig (Adran wladol y DU yng Nghymru) dderbyn yr angen am gynllunio rhagweithiol i hybu rhagolygon y Gymraeg. Arweiniodd hyn at fwy o statws i'r Gymraeg mewn meysydd fel addysg, a sefydlu S4C fel sianel deledu Gymraeg. Yn ddiweddarach, wrth basio Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg, amlygwyd cynnydd pellach yn nylanwad gwleidyddion a gweision sifil dros gydlynw gwaith cynllunio ieithyddol yng nghyd-destun y Gymraeg. Ar ôl 1999, yn dilyn sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae llywodraeth ddatganoledig wedi dod i chwarae rhan fwy canolog yn y gwaith o lunio polisiâu. I ddechrau, parhaodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg i weithredu fel asiantaeth cynllunio ieithyddol hyd braich. Eto i gyd, diddymwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (2011) a sefydlwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg. Arweiniodd y newid hwn at drosglwyddo'r cyfrifoldeb am waith sy'n ceisio hyrwyddo mwy o gaffael iaith a defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg i wasanaeth sifil Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, ers 2012, mae'r cymhwysedd dros hyrwyddo'r Gymraeg yn perthyn i'r Llywodraeth, ac mae'r cyfrifoldeb am wasanaethau dwyieithog sy'n statudol orfodol yn perthyn i Gomisiynydd y Gymraeg, ac mae gwleidyddion etholedig yn flaenllaw yn y broses o wneud penderfyniadau.
- 2.4 Disgrifiodd Allan Campbell lwybr cymharol debyg lle mae'r llywodraeth a chyrrff statudol cysylltiedig wedi cymryd rhan amlycach ym maes adfywio iaith, a soniodd am ddatblygiadau diweddar yn y modd y mae ymdrechion i gefnogi'r Aeleg yn yr Alban wedi eu trefnu. Yn ystod y saithdegau roedd galw am sefydlu asiantaeth o'r llywodraeth a allai gynllunio ar gyfer datblygiadau yng nghyd-destun Gaeleg yr Alban. Yn dilyn hynny, yn 1984 ariannwyd Comunn na Gàidhlig gan Swyddfa'r Alban (Adran wladol Llywodraeth y DU yn yr Alban) fel asiantaeth i gydlynw datblygiad Gaeleg yr Alban. Ond roedd llawer o'r gwaith hwn yn parhau i gael ei wneud ar lawr gwlad. Ar ôl datganoli mae pasio Deddf Gaeleg yr Alban (yr Alban) 2005 wedi arwain at sefydliadu pellach gyda sefydlu Bòrd na Gàidhlig yn 2005 fel corff cyhoeddus anadrannol gweithredol o Lywodraeth yr Alban gyda chyfrifoldeb ar gyfer Gaeleg.
- 2.5 Fodd bynnag, daeth yn amlwg mai un eithriad pwysig i'r duedd a ddisgrifiwyd uchod yw Iwerddon. Fel y dadleuodd John Walsh a Seán Ó Cuirreáin yn eu cyflwyniadau hwythau, un o nodweddion polisi iaith y Wyddeleg yw enciliad graddol y llywodraeth. Er enghraifft, disgrifiodd Walsh sut, i bob pwrpas, mae diwygiadau a gyflwynwyd drwy Ddeddf y Gaeltacht 2012, wedi trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros gynllunio ieithyddol ar lefel leol o blaid y Wyddeleg i bwyllgorau lleol gwirfoddol



Adfywio: Adroddiad Briffio Gweithdy 4

sydd ag adnoddau ac arbenigedd cyfyngedig iawn fel sail i'w hymdrechion. Wrth ystyried ei ddegawd yn swydd An Coimisinéir Teanga (Comisiynydd y Wyddeleg), dadleuodd Ó Cuirreáin fod enciliad y Llywodraeth yn ddiweddar hefyd yn cael ei adlewyrchu mewn tueddiadau fel amharodrzydd sefydliadau llywodraethol i gydnabod yn ddigonol y dirywiad yn nefnydd yr iaith, yn enwedig yn y Gaeltacht; yr amharodrzydd i gydymffurfio â'u hymrwymiaidau eu hunain o ran penodi swyddogion iaith y Wyddeleg o fewn adrannau'r Llywodraeth; a'r anallu i wireddu ymrwymiaidau i adolygu'r ddeddfwriaeth iaith gyfredol. Mewn termau cymharol, mae'n drawiadol bod y cilio diweddar yn lefel yr ymwneud gan y Llywodraeth a welwyd yn Iwerddon yn ymwneud ag arfer cymwyseddau ar lefel y wladwriaeth, tra bod y cynnydd graddol yn yr ymwneud ar ran y llywodraeth a welwyd yng Nghymru ac yn yr Alban yn cynnwys cymwyseddau ar lefel is-wladwriaethol.

- 2.6 Yn ei gyflwyniad, tynnodd John Walsh sylw hefyd at yr angen i roi sylw manwl i rôl gweision sifil parhaol wrth ystyried newidiadau i'r modd y mae gwahanol lywodraethau – ar lefel y wladwriaeth neu'r is-wladwriaeth – yn mynd ati i adfywio iaith. Gyda thrafodaeth hanesyddol ofalus, dangosodd Walsh sut roedd swyddogion unigol yng ngwasanaeth sifil Iwerddon – yr amlycaf ohonynt oedd cyn Ysgrifennydd yr Adran Gyllid, T. K. Whitaker – yn allweddol wrth oruchwylio'r newid yn y ffocws polisi a ddigwyddodd yn Iwerddon yn ystod y chwedegau o un a oedd yn pwysleisio 'Gwyddelegeiddio' ac adfywiad y Wyddeleg i un o ddwyieithrwydd a'r syniad o'r Wyddeleg fel iaith leiafrifol. Y ddadl allweddol, yn ôl Walsh, yn seiliedig ar yr enghraifft hanesyddol hon, yw y gall unigolion cryf, mewn fframwaith llywodraethu gwan, gael dylanwad sylweddol ar gyfeiriad polisi iaith.
- 2.7 Yr oedd enghraifft Iwerddon hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd dadl a gyflwynwyd gan Peter Kraus yn ei gyflwyniad, bod traddodiadau, llwybrau a chyd-destunau penodol, cenedlaethol neu leol, yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y ddeinameg sy'n sail i waith llunio polisi mewn perthynas ag adfywio iaith (fel mewn cyd-destunau eraill). Mae perygl y gallai gorbwysleisio cydgyfeiriant o ran tueddiadau trosfwaol ystumio ein dealltwriaeth o rôl iaith mewn achosion penodol. Yn benodol, mae'n bwysig ystyried y ffyrdd amrywiol y gall llywodraethau a sefydliadau eraill drin iaith fel rhyw fath o edefyn, sy'n adeiladu cyswllt rhwng unigolion a strwythurau sefydliadol o fewn fframwaith penodol ar gyfer gweithredu.

3. Y berthynas rhwng llywodraeth a'r gymdeithas sifil wrth adfywio iaith

- 3.1 Thema bwysig arall a gododd yn gyson drwy gydol y gweithdy oedd yr heriau a'r tensiynau a all godi pan fydd llywodraethau a sefydliadau cymdeithas sifil ill dau yn chwarae rhan weithredol mewn ymdrechion adfywio iaith. Roedd sut i reoli'r berthynas hon yn destun pryder i lawer o gyfranwyr, yn ogystal â'r cwestiwn ynghylch pa gyfraniad penodol y gall/y dylai llywodraethau a sefydliadau cymdeithas sifil ei wneud fel rhan o ymdrech adfywio iaith yn fwy cyffredinol. At hynny, roedd y rhain yn amlwg yn faterion a oedd yn peri pryder yn yr achosion hynny sydd wedi gweld cynnydd yn y rhan weithredol a chwaraeir gan sefydliadau llywodraethol yn ogystal â'r achosion hynny lle gwelwyd y llywodraeth yn encilio'n raddol.
- 3.2 Wrth amlinellu newidiadau yn 'llywodraethiant' ymdrechion adfywio iaith yng Nghymru (gweler 2.3 uchod), dadleuodd Meirion Prys Jones fod y cynnydd graddol yn rheolaeth a dylanwad actorion llywodraeth ers dechrau'r wythdegau yn cyd-daro â dirywiad sylweddol yn lefel yr egni a'r arloesedd oedd yn amlwg yn y gymdeithas sifil. Holodd a oedd gormod o bwyslais ar rôl llywodraethau wedi arwain at sefyllfa lle'r oedd cyfraniad posibl actorion llawr gwlad anllywodraethol eraill wedi cael ei ddiystyru. Awgrymodd hefyd, mewn cyd-destun o'r fath, y gallai cyfleoedd i weithredwyr iaith arloesi ac arbroti gyda gwahanol fentrau gael eu cyfyngu, gan fod ymwneud mwy uniongyrchol ar ran y llywodraeth (e.e. drwy ddarparu cyllid) yn arwain at fwy o oruchwyliaeth a rheolaeth. Pwysleisiodd Jones fod y mathau hyn o bryderon yn arbennig o



Adfywio: Adroddiad Briffio Gweithdy 4

berthnasol wrth ystyried ymdrechion i hyrwyddo mwy o ddefnydd o iaith leiafrifol mewn meysydd cymdeithasol anffurfiol fel y cartref a'r gymuned leol. Yn fyr, dadleuwyd na ddylid diystyru rôl bwysig llywodraeth o ran adfywio iaith, ond yn yr un modd, ei bod yn bwysig ceisio sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gwahanol fathau o actorion, gan sicrhau felly na fydd dylanwad un actor yn rhy gryf.

- 3.3 Aeth Allan Campbell ati hefyd i ystyried rhai o'r peryglon y mae'n rhaid eu cadw mewn cof pan fydd ymdrechion i adfywio iaith yn dod yn rhai mwy sefydliadol. Gan ystyried ei brofiadau yn yr Alban, nododd fod sefydlu *Bòrd na Gàidhlig* yn 2005 fel corff cyhoeddus anadrannol gweithredol o Lywodraeth yr Alban gyda chyfrifoldeb dros yr Aeleg wedi arwain at ganlyniadau amrywiol. Er bod gwaith y *Bòrd* wedi cyfrannu'n amlwg at gynyddu statws cyffredinol yr Aeleg, awgrymodd Campbell hefyd fod creu'r *Bòrd* wedi arwain at rywfaint o ddifaterwch o fewn y mudiad iaith. Holodd hefyd a oedd y ffocws ar waith y *Bòrd* wedi arwain at ymagwedd at hybu Gaeleg a oedd yn fwyfwy mecanistig a rheoleiddiol o ran natur, nad oedd yn rhoi digon o bwyslais ar yr angen i ymgynghori'n rheolaidd â siaradwyr a chymunedau Gaeleg er mwyn sicrhau twf yn nifer siaradwyr Gaeleg yr Alban.
- 3.4 Drwy gyfeirio at gysyniad y 'wladwriaeth gysgodol', trafododd Rhys Jones duedd ddiweddar sy'n amlwg ar draws sawl democratiaeth yn y Gorllewin lle mae llu o gyrff cymdeithas sifil wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros weithredu gwasanaethau neu raglenni polisi cyhoeddus a oruchwyliwyd ac a weithredwyd yn flaenorol gan sefydliadau llywodraethol swyddogol (naill ai ar y lefel wladol, rhanbarthol neu leol). Yn arwyddocaol, dadleuodd fod gan y duedd gyffredinol hon oblygiadau o ran sut mae nifer o sefydliadau sifil sy'n gysylltiedig â hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol yn ymhel â'u gwaith. Edrychodd Jones yn ddyfnach ar y thema hon drwy gyfeirio at ymchwil barhaus sy'n archwilio gwaith sawl corff anlywodraethol sy'n gysylltiedig ag ymdrechion i hybu rhagolygon y Gymraeg yng Nghymru, er enghraifft y *Mentrau Iaith*, *Urdd Gobaith Cymru* a'r *Mudiad Meithrin*. Mae pob un o'r sefydliadau hyn wedi elwa'n ariannol wrth i'r Llywodraeth gymryd mwy o ran yn y gwaith o adfywio'r iaith yng Nghymru, yn enwedig yn ystod y cyfnod ar ôl datganoli. Fodd bynnag, yn gyfnewid am yr arian hwn, ac, ar ben hynny, er mwyn sicrhau cynnydd posibl mewn cyllid yn y dyfodol, mae angen i sefydliadau o'r fath ddangos sut y mae eu gwaith yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol cyffredinol a bennir gan y Llywodraeth. Er enghraifft, yn achos *Urdd Gobaith Cymru*, mudiad ieuenctid a sefydlwyd gyda'r nod o annog mwy o ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc, awgrymodd Jones fod y berthynas â'r llywodraeth wedi ei wthio tuag at geisio alinio ei hun yn agos â chyfres ehangach o flaenoriaethau llywodraethol yn ymwneud â darpariaeth ieuenctid (e.e. creu dinasyddion gweithgar, datblygu sgiliau cyflogadwyedd, hyrwyddo ymarfer corff, gwella iechyd meddwl). O ganlyniad, awgrymodd Jones ei bod yn briodol cwestiynu a oes risg y gall gwaith sefydliadau o'r fath weithiau gael ei wyro oddi wrth ganolbwyntio ar eu cenhadaeth ieithyddol graidd. Er ei bod yn bryder nad yw hyn yn gyfyngedig i fudiadau ieithoedd lleiafrifol, cynigiodd Jones fod y broblem o bosibl yn arbennig o ddwys yn y cyd-destun hwn. Heddiw, y duedd yw i lawer o lywodraethau ddisgwyl y bydd cyllid ar gyfer cyrff cymdeithas sifil sy'n gweithio mewn gwahanol feysydd o bolisi cymdeithasol yn glynu wrth norm o 'atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau', lle mae'n bosibl rhagweld y gallai arbedion ariannol ddeillio o fuddsoddiadau a wneir yn y presennol. Ac eto, fel y gofynnodd Jones, sut y gall sefydliadau fel yr *Urdd* ddangos gwerth am arian drwy seilio eu gwaith ar geisio sicrhau canlyniadau ieithyddol penodol yn unig?
- 3.5 Fel rhan o'i gyflwyniad, cynigiodd John Walsh ddadansoddiad deifiol o'r berthynas sydd wedi datblygu yn Iwerddon rhwng Llywodraeth Iwerddon a gwahanol fudiadau'r Wyddeleg. Unwaith eto, y mater craidd yn hyn o beth oedd y modd y gall derbyn cyllid gan y llywodraeth ddylanwadu ar weithgarwch sefydliadau'r gymdeithas sifil. Ac eto, yn ôl Walsh, mae'r effaith yn achos Iwerddon, wedi bod yn llawer iawn mwy pellgyrhaeddol. Dadleuodd fod y trefniadau ariannu



Adfywio: Adroddiad Briffio Gweithdy 4

wedi dirymu annibyniaeth llawer o fudiadau'r Wyddeleg ac wedi eu gadael naill ai'n amharod neu'n analluog i feirniadu neu herio'r Llywodraeth ynglŷn â'i blaenoriaethau polisi iaith.

- 3.6 Gan ystyried ystod o achosion Ewropeaidd, yn seiliedig ar ei waith gyda Chyngor Ewrop a'r Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol, dadleuodd Jarmo Lainio hefyd y gall natur trefniadau ariannu llywodraethau effeithio ar ba mor effeithiol y gall sefydliadau cymdeithas sifil gyfrannu at ymdrechion i adfywio iaith. Efallai na fydd yr effaith bob amser mor sylweddol â'r hyn a welwyd yn Iwerddon gan Walsh. Serch hynny, dadleuodd Laino fod y duedd i lywodraethau ddyrannu cyllid ar gyfer prosiectau hyrwyddo iaith gwahanol ar gylchoedd o bob ryw 3 blynedd yn creu rhywfaint o ansicrwydd i sefydliadau o'r fath a, gan adleisio Jones (gweler 3.2), y duedd yw iddynt fod yn amharod i gymryd unrhyw risg.
- 3.7 Yn gyffredinol, ymddengys mai'r hyn oedd yn deillio o nifer o gyfraniadau gwahanol yn ystod y gweithdy oedd bod angen meddwl yn strategol am y modd y gall llywodraethau a sefydliadau cymdeithas sifil gyfrannu'n effeithiol at ymdrechion adfywio iaith a'r modd y gellir ystyried eu priod rolau. Ar y mater hwn, mae trafodaeth Paul Bilbao Sarria ar y modd mae ymdrechion llywodraeth a chymdeithas sifil wrth gefnogi'r Fasgeg wedi esblygu dros y blynyddoedd, a sut y deallir y berthynas rhyngddynt, yn arbennig o berthnasol. Yn ôl Bilbao Sarria, dylid ystyried bod pedair elfen allweddol yn hanfodol i adfywio iaith: i) deddfwriaeth ddigonol; ii) cynllunio digonol; iii) adnoddau digonol; a iv) diddordeb a chefnogaeth gref gan y cyhoedd. Er y gall cymdeithas sifil chwarae rhan ym mhob un o'r meysydd hyn, dadleuwyd bod ganddi rôl arbennig o bwysig i'w chwarae o ran creu amgylchiadau a nodweddir gan gefnogaeth gref y cyhoedd i'r iaith. Wrth wneud hynny, gall cymdeithas sifil greu cyd-destun sy'n annog y llywodraeth i ymyrryd yn rhagweithiol mewn perthynas â deddfwriaeth, cynllunio ac adnoddau. Er bod hyn yn cynrychioli un ffordd yn unig o gysyniadoli perthynas ffrwythlon rhwng rôl llywodraeth a chymdeithas sifil wrth adfywio iaith, mae'n dangos y math o feddwl strategol a allai fod yn werthfawr ar draws nifer o wahanol achosion.
- 3.8 Pwynt pwysig arall a ddaeth i'r amlwg o nifer o'r sylwadau a wnaed yn ystod y gweithdy ynghylch y berthynas rhwng llywodraeth a chymdeithas sifil oedd ei bod yn ofynnol i drafodaethau osgoi cael eu fframio fel dewis rhy syml rhwng ymagweddau 'o'r brig i lawr' ac 'o'r bôn i'r brig'. Mae hyn yn ymddangos fel tuedd mewn rhai rhannau o'r lenyddiaeth academiaidd ar adfywio iaith, gyda'r dull o weithredu ar lawr gwlad, o'r bôn i'r brig, yn aml yn cael ei ystyried yn well. Ar y cyfan, nid oedd cyfranogwyr yn y gweithdy hwn yn cwestiynu gwerth ymyriad swyddogol gan lywodraethau o safbwynt ieithoedd lleiafrifol, naill ai drwy fesurau deddfwriaethol, ariannol neu bolisi eraill. Yn hytrach, roedd y pwyslais ar yr angen i gydnabod nad yw'r cyfranogiad hwn yn dod heb ei oblygiadau, a dylai dod o hyd i ffyrdd o barhau i allu harneisio cyfraniad gwahanol actorion yn y gymdeithas sifil fod yn ystyriaeth allweddol wrth i ymdrechion adfywio iaith (yn aml oherwydd llwyddiant ymgyrchu'r actorion cymdeithas sifil hynny) gael eu sefydliadoli fwyfwy o fewn strwythurau llywodraethu ffurfiol.

4. Rôl deddfwriaeth a'r llysoedd o ran adfywio iaith

- 4.1 Mae dulliau o adfywio iaith yn gallu amrywio'n sylweddol ar draws gwahanol achosion. Yn yr achosion hynny lle mae llywodraethau – naill ai ar lefel y wladwriaeth neu ar lefel is-wladwriaethol – yn chwarae rôl fwy rhagweithiol, cwestiwn allweddol sy'n codi'n aml yw faint o bwyslais y dylid ei roi ar rôl deddfwriaeth a'r llysoedd o gymharu ag offerynnau polisi a sefydliadau eraill.
- 4.2 Yn ei gyflwyniad, dadleuodd Rob Dunbar y gall deddfwriaeth chwarae rôl ganolog mewn adfywio iaith. Cynigiodd fod effeithiau deddfwriaeth ar fywiogrwydd iaith yn mynd y tu hwnt i gynnig y dilysiad symbolaidd a ddaw yn sgil statws cyhoeddus uwch. Amlinellodd Dunbar y gwahanol



Adfywio: Adroddiad Briffio Gweithdy 4

ffyrdd y gall deddfwriaeth gyflawni swyddogaeth symbolaidd a swyddogaeth fwy ymarferol. Gall gyfrannu at gynllunio statws, drwy greu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith mewn amrywiaeth o beuoedd; gall hefyd hwyluso ymdrechion cynllunio caffael iaith drwy warantu mynediad at addysg ieithoedd lleiafrifol. Yn fyr, dadleuodd Dunbar y dylid herio'r ffordd ddylanwadol y mae Joshua Fishman wedi nodweddu deddfwriaeth fel 'prop lefel uwch' mewn ymdrechion i adfywio iaith.

- 4.3 Gan adleisio'r ddadl hon, cynigiodd Emyr Lewis feirniadaeth o'r duedd yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf i drafod dulliau adfywio iaith fel dewis deuaidd rhwng dulliau a oedd yn cynnwys deddfwriaeth a chreu hawliau iaith, a dulliau gweithredu oedd yn canolbwyntio mwy ar ar hybu caffael a defnyddio iaith yn y gymuned. Dadleuodd Lewis fod hyn yn cynrychioli deuoliaeth ffug a bod angen cydnabod y potensial i ddeddfwriaeth hefyd hwyluso gwaith hyrwyddo.
- 4.4 Gan adeiladu ar y pwyntiau hyn, dadleuodd Paul Bilbao Sarria, yn seiliedig ar ei brofiadau yn gweithio yng Ngwlad y Basg, y dylid ystyried deddfwriaeth fel un o'r pedair elfen hanfodol yng nghyd-destun ymdrechion adfywio iaith neu ymdrechion normaleiddio cydlynus. Fel y nodwyd uchod (3.7), yr elfennau allweddol eraill wedyn yw cynllunio digonol, adnoddau digonol a chefnogaeth gref gan y cyhoedd. Dadleuodd Bilbao Saria hefyd y gellir asesu priod rolau cyrff cyhoeddus a chymdeithas sifil gan gyfeirio at yr elfennau hyn, yn enwedig o ran greu siaradwyr, darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith, yr offer a'r gofodau i wneud hynny.
- 4.5 Yn ei gyflwyniad, ystyriodd Rob Dunbar hefyd y ffordd unigryw y gall y system llysoedd gyfrannu at ymdrechion i adfywio iaith. Dadleuodd y gall rôl y llysoedd fod yn eithaf sylweddol mewn rhai achosion, ond y bydd hyn yn aml yn dibynnu ar natur diwylliannau cyfreithiol a gwleidyddol y wladwriaeth. Pwysleisiodd hefyd y gall ymyriadau gan lysoedd gefnogi a chyfyngu ar hyrwyddo iaith benodol. Er enghraifft, yn Sbaen, mae llywodraethau is-wladwriaethol wedi'u dwyn gerbron y llys gyda'r nod o geisio culhau'r dehongliad o ddeddfwriaeth iaith a thrwy hynny gwtogi ar gwmpas polisïau hyrwyddo penodol.
- 4.6 Er bod angen sylw pellach er mwyn deall yn llawn yr amrywiaeth o ffyrdd y gall canlyniadau prosesau llysoedd ddylanwadu ar ymdrechion i adfywio iaith, tynnodd Dunbar sylw at bwyntiau allweddol o'i ymchwil gyfredol ar y mater hwn: yn gyntaf, gall penderfyniadau llysoedd sbarduno newidiadau mewn cyfraith a pholisi mewn perthynas ag ieithoedd lleiafrifol; yn ail, gall penderfyniadau llysoedd ddylanwadu ar arferion gwaith ac agweddau sefydliadau llywodraethol a chyrrff cyhoeddus trwy 'effaith rhaeadru'; yn drydydd, gallant gryfhau ac annog ymgyrchoedd iaith pellach; ac yn bedwerydd, gall penderfyniadau llysoedd ddylanwadu ar agweddau tuag at iaith ac arferion cymunedau siaradwyr (e.e. ymwybyddiaeth o hawliau, hyder i geisio darpariaeth neu barodrydd i gwyno pan na ddarperir gwasanaethau).
- 4.7 Fodd bynnag, dadleuwyd bod agweddau eraill ar y fframwaith cyfreithiol a'r diwylliant cyfreithiol hefyd yn bwydo i mewn i'r graddau y gall llysoedd effeithio ar lywodraethiant iaith mewn achosion gwahanol a'u potensial i wneud hynny. Fel y nodir uchod, mae'r fframwaith cyfreithiol ehangach ar lefelau lluosog yn chwarae rôl, gan gynnwys unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol rhyngwladol; cyfraith gyfansoddiadol ddomestig; deddfwriaeth nad yw'n benodol i iaith, megis cyfraith cydraddoldeb; a datrysiadau cyfraith gyhoeddus. Mae'r fframwaith cyfreithiol hefyd yn penderfynu i ba raddau y mae'r hawl neu'r gallu i ddwyn camau cyfreithiol yn nwylo unigolion, sefydliadau cymdeithas sifil, comisiynwyr iaith, neu lefelau eraill o lywodraeth ac o'r herwydd, i ba raddau y gall y mathau hyn o achosion fynd i'r llys.
- 4.8 Mae amrywiaeth ehangach o ffactorau hefyd yn berthnasol i ddeall i ba raddau y mae'r llysoedd yn chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o lywodraethu polisi iaith, gan gynnwys yr adnoddau a'r capasiti sydd ar gael mewn cymunedau penodol i droi at y llysoedd. Yn y cyswllt hwn, mae



Adfywio: Adroddiad Briffio Gweithdy 4

arweinyddiaeth a chapasiti sefydliadau'r gymdeithas sifil; y graddau y mae cyfreithwyr yn barod i weithredu fel eiriolwyr; cyfraniad barnwyr sy'n deall cyflwr a chyd-destun yr iaith leiafrifol; rôl y cyfryngau a'u perthynas â chyrrff anllwodraethol iaith, yn gallu penderfynu i ba raddau y mae'n bosibl ac yn fuddiol mynd ag achos i'r llys. At hynny, mae'r problemau o ran capasiti'n haeddu mwy o gydnabyddiaeth, yn enwedig mewn cyd-destunau lle y mae llymder wedi dylanwadu ar fynediad at y system gyfreithiol mewn nifer o wahanol ffyrdd, gan gynnwys lleihau cymorth cyfreithiol a'i gwneud yn anos cymryd achosion yn eu blaenau.

5. Comisiynwyr iaith fel actorion newydd mewn ymdrechion i adfywio iaith

- 5.1 Gan gyfeirio at brosiect ymchwil rhyngwladol yn cymharu rôl comisiynwyr iaith, bu Diarmait Mac Giolla Chríost yn trafod profiadau Comisiynwyr Iaith Cymru ac Iwerddon. Tynnodd sylw at y ffaith fod diwygiadau pellgyrhaeddol i'r swyddi hyn, yn y ddau achos, wedi cael eu trafod prin ychydig o flynyddoedd yn dilyn eu creu: sef y bwriad i uno *An Coimisinéir Teanga* (Comisiynydd y Wyddeleg) gyda Swyddfa'r Ombwdsmon yn achos Iwerddon, a'r bwriad yng Nghymru i ddisodli swydd Comisiynydd y Gymraeg gyda Chomisiwn y Gymraeg.
- 5.2 Cynigiodd Mac Giolla Chríost fod datblygiadau o'r fath yn fwy na chyd-ddigwyddiad ac o bosibl yn adlewyrchu elfennau cyffredin o ran cylch gwaith rheoleiddio'r ddau gorff. Ymhlith y tebygrwydd a awgrymir roedd: cymhlethdod y rheolau a'r safonau rheoleiddio a grëwyd gan y ddeddfwriaeth a'u sefydlodd; goblygiadau'r swyddi ar gyfer cysylltiadau sefydliadol sefydledig; safbwyntiau sy'n gwrthdaro o ran faint o annibyniaeth sydd gan y comisiynwyr a phroblemau dilynol yn y berthynas â'r llywodraethau perthnasol; ac yn olaf, hunaniaeth gorfforaethol y corff rheoleiddio.
- 5.3 Yn ogystal, dadleuodd Mac Giolla Chríost fod yr arddull rheoleiddio a gorfodi a ddefnyddiwyd yn Iwerddon a Chymru yn tueddu i lynu'n gaeth wrth ofynion a bennwyd yn gyfreithiol, ac yn sgil hyn, roedd cyrrff cyhoeddus yn wynebu anghenion newydd a beichiau rheoliadol cymhleth yr ystyriwyd eu bod yn rhy heriol ac o fudd rhy gyfyngedig i'r cyhoedd, o ystyried bod lefel y defnydd o wasanaethau yn isel. Roedd y dull rheoleiddio hwn yn cyferbynnu â dull mwy galluogol lle y rhoddir mwy o bwyslais ar yr angen i gynghori a negodi a lle y ceir dialog mwy rheolaidd rhwng y Comisiynydd a'r cyrrff y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.
- 5.4 Cyfrannodd ymarferwyr yn y gweithdy hefyd at y drafodaeth ynghylch rôl comisiynwyr iaith fel actorion newydd mewn ymdrechion adfywio iaith. Wrth fyfyrion ar ei ddegawd fel *An Coimisinéir Teanga* (Comisiynydd y Wyddeleg), dadleuodd Seán Ó Cuirreáin fod gan gomisiynwyr iaith y potensial i weithredu fel ysgogwyr pwysig o ran ymdrech ehangach i adfywio iaith, er enghraifft trwy ddarparu trosolwg annibynnol ar weithredu polisi iaith a thrwy ddarparu ymchwil a dadansoddiad dilys sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwaith dadansoddi. Fodd bynnag, rhybuddiodd hefyd y gall rheoli'r berthynas wleidyddol â'r Llywodraeth fod yn eithriadol o heriol, oherwydd yn ei brofiad ef, pan gyflwynwyd ei ddadansoddiad annibynnol, gallai hyn arwain at ganlyniadau negyddol i'r swydd, gan gynnwys tuedd i'w thanseilio.
- 5.5 Wrth ystyried achos Canada, lle y crëwyd swydd comisiynydd iaith i reoleiddio ar ran dwy gymuned iaith fawr swyddogol, awgrymodd Linda Cardinal hefyd, er bod rôl oruchwyliol comisiynwyr iaith yn cael ei derbyn, nid yw'n dilyn y bydd eu hargymhellion yn cael eu parchu a'u rhoi ar waith. O ganlyniad, er bod comisiynwyr iaith wedi'u sefydlu gan nifer o lywodraethau sy'n ymwneud â gwaith cynnal neu hyrwyddo iaith er mwyn cyflawni swyddogaethau dynodedig, mae'n bosibl nad yw eu rôl benodol o fewn llywodraethiant polisi iaith wedi derbyn yn llawn eto.



6 Adfywio iaith fel gweithgaredd aml-lefel

- 6.1 Yn ystod ei gyflwyniad, cynigiodd Michael Keating ddadansoddiad treiddgar o'r hyn a alwodd yn batrymau cyfredol o 'ail-fframio', lle mae gwahanol swyddogaethau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol yn mudo i lefelau newydd, yn uwch ac yn is na lefel y wladwriaeth. Nododd Keating fod tuedd ddylanwadol ar draws y gwyddorau cymdeithasol i weld y tueddiadau hyn fel rhai sy'n dynodi diwedd oes y genedl-wladwriaeth draddodiadol, ac yn gysylltiedig â hynny, diwedd tiriogaeth fel ffactor canolog yn y modd y trefnir bywyd gymdeithasol, economaidd a gwleidyddol. I'r gwrthwyneb, dadleuodd yn gryf na ddylid ystyried patrymau presennol o newid cymdeithasol fel rhai sydd ond cynrychioli dad-dirioegaethu radical, ond hefyd fel rhai sy'n *ail-dirioegaethu* agweddau gwahanol ar fywyd cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol ar lefelau tiriogaethol newydd. Ar y naill law, mae'r lefel uwch-genedlaethol wedi dod i'r amlwg fel graddfa dirioegaethol bwysig uwchlaw'r wladwriaeth, er enghraifft mewn meysydd fel diogelu'r amgylchedd ac addysg uwch. Ar y llaw arall, yr ydym hefyd wedi gweld (ail) ymddangosiad yr hyn a alwodd Keating yn lefel 'meso', sef islaw lefel y wladwriaeth, fel gofod cynyddol bwysig ar gyfer datblygu economaidd, polisi cymdeithasol a chystadleuaeth wleidyddol.
- 6.2 Yn arwyddocaol, cynigiodd Keating hefyd fod gan ei ddadleuon cyffredinol ynghylch sut y dylid deall patrymau ail-fframio cyfredol oblygiadau pwysig o ran sut mae'r ymdrechion i gefnogi cymunedau ieithoedd lleiafrifol yn cael eu cysyniadoli. Rhybuddiodd yn erbyn derbyn y gosodiad bod natur bywyd cyfoes, yn arbennig arwyddocâd gwahanol ffurfiau o dechnoleg cyfathrebu, yn golygu y gellir anwybyddu tiriogaeth fel ffactor sy'n berthnasol i'r ffordd yr ydym yn meddwl am batrymau defnydd iaith, yn ogystal â chynllunio ymdrechion i gefnogi cymunedau iaith penodol. Er ei fod yn cydnabod nad yw pob cymuned iaith wedi'i lleoli'n daclus mewn ardaloedd diffiniedig, ac y gallent rychwantu ffiniau tiriogaethol, dadleuodd Keating y gall polisiâu iaith, ac yn enwedig polisiâu sy'n anelu at hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol, gael eu ystyried yn rhai tiriogaethol iawn. Amlygir hyn gan y ffaith bod y polisiâu hyn fel arfer yn cael eu gweinyddu gan sefydliadau sy'n eu trefnu eu hunain ar sail dirioegaethol a bod yr un dirioegaeth wedyn yn dylanwadu ar y modd y mae'r sefydliadau hyn yn trefnu eu gwaith (e.e. darparu gwasanaethau). Yn wir, mae'r gwaith o sefydliadoli ymdrechion adfywio iaith drwy ymwneud cynyddol y gwahanol sefydliadau llywodraethol ar lefel is-wladwriaethol, yn enghraifft glir o agweddau o fywyd cymdeithasol yn cael eu hail-dirioegaethu ar raddfeydd newydd. Hyd yn oed pan ddaw'n fater o feddwl am batrymau defnydd iaith gymdeithasol ymysg aelodau'r gymuned, dadleuodd Keating y bydd y rhyngweithiadau hyn yn dal i ddigwydd mewn lleoliadau tiriogaethol penodol. O ganlyniad, hyd yn oed wrth i bobl fyw mewn modd fwyfwy symudol a defnyddio dulliau newydd o gyfathrebu, nid yw'n dilyn ein bod yn gweld diflaniad tiriogaeth, ond yn hytrach y ffaith bod bywyd yn ail-dirioegaethu yn ôl graddfeydd newydd.
- 6.3 Yn eu cyflwyniad, soniodd Huw Lewis ac Elin Royles hefyd am y syniad bod swyddogaethau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol wedi symud i lefelau tiriogaethol newydd, uwchlaw ac islaw'r wladwriaeth. Dadleuwyd bod angen ystyried y symudiad hwn tuag at batrymau llywodraethu cynyddol aml-lefel wrth geisio deall y ddeinameg wleidyddol sy'n sail i ddatblygu ymyriadau polisi sy'n ymwneud ag ieithoedd lleiafrifol yn enwedig yn y cyd-destun Ewropeaidd. Efallai fod actorion ar lefel is-wladwriaethol wedi goruchwyllo llawer o'r gweithgarwch i gefnogi ieithoedd fel Catalaneg, Basgeg, Gaeleg yr Alban a Chymraeg dros y degawdau diwethaf, gan adlewyrchu'r cynnydd radical mewn ymreolaeth ranbarthol ar draws Gorllewin Ewrop yn ystod y cyfnod hwnnw. Er hynny, anaml y mae mentrau ar lefel ranbarthol wedi'u llunio a'u datblygu ar eu pennau'u hunain. Mae'r patrymau sy'n datblygu o ran llywodraethu ar sawl lefel yn codi'r posibilrwydd, fel mewn meysydd eraill, fod ymyriadau polisi sy'n targedu ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol yn cael eu dylanwadu gan ddeinameg wleidyddol ar lefelau lluosog. Gall strwythurau ar lefel y wladwriaeth a yn ogystal â strwythurau ar lefel y cyfandir neu ar lefel fyd-eang hefyd fod yn arwyddocaol. Felly, dadleuodd Lewis a Royles fod dealltwriaeth gynhwysfawr o'r ffactorau sy'n



Adfywio: Adroddiad Briffio Gweithdy 4

esbonio dewisiadau polisi iaith mewn cyd-destunau o'r fath yn galw am archwiliad systematig o'r rhyngweithiadau rhwng y gwahanol lefelau hyn ac asesiad o'u dylanwad cymharol ar wahanol bwyntiau mewn amser.

- 6.4 Roedd Lewis a Royles yn cydnabod bod llawer o'r cyfraniadau at y llenyddiaeth academiaidd a pholisi ar bolisi iaith wedi cydnabod y dylai gweithgaredd polisi iaith gael ei ystyried fel un sy'n cwmpasu gweithredoedd yr actorion a'r sefydliadau ar amryfal raddfeydd gwahanol. Yn achos adfywio iaith, amlygir hyn gan y gwahaniaeth a ddefnyddir yn aml rhwng ymyriadau lefel 'macro' a 'micro'. Ac eto, er gwaethaf ymwybyddiaeth gyffredinol o natur aml-lefel gweithgarwch polisi iaith, mae'n drawiadol, hyd yma, fod natur y rhyngweithio rhwng actorion a sefydliadau ar wahanol lefelau tiriogaethol, a'r modd y mae'r rhyngweithiadau hyn yn gallu naill ai alluogi neu gyfyngu ar opsiynau polisi iaith sydd ar gael mewn lleoliadau penodol, yn ddeinamig nad yw wedi cael ei dadansoddi'n systematig gan ymchwilwyr polisi iaith.

7 Arwyddocâd y lefel uwch-wladwriaethol ar gyfer ymdrechion i adfywio iaith

- 7.1 Gan adeiladu ar y ddadl uchod bod angen asesu arwyddocâd cymharol gweithgareddau adfywio iaith ar draws nifer o lefelau tiriogaethol, roedd sesiwn olaf y gweithdy yn canolbwyntio'n benodol ar weithgareddau cyfredol ar lefel Ewrop. Yn gyntaf, bu'r drafodaeth yn gyfle i amlygu'r gwahanol fathau o rwydweithiau ieithoedd lleiafrifol sydd wedi dod i'r amlwg ar lefel Ewropeaidd: Mae'r rhain yn cynnwys y Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol (NPLD), y mae ei aelodaeth yn cynnwys sefydliadau llywodraethol yn ogystal â chyrrff cyhoeddus eraill, a Rhwydwaith Cydraddoldeb Ieithoedd Ewrop (ELEN), sy'n fwy o sefydliad sy'n seiliedig ar y gymdeithas sifil.
- 7.2 Wrth drafod gwaith ELEN, esboniodd Paul Bilbao Sarria fod y mudiad yn tynnu ynghyd nifer fawr o fudiadau ieithoedd lleiafrifol Ewropeaidd. Dadleuodd mai rôl neilltuoel ELEN yw gweithio fel cyswllt rhwng y sefydliadau llawr gwlad hyn a sefydliadau Ewropeaidd a byd-eang perthnasol. Ymhlith ei gyfraniadau allweddol mae hwyluso'r broses o drosglwyddo gwybodaeth ac arferion da rhwng sefydliadau; darparu lle ar gyfer datblygu prosiectau ar y cyd; cynnal gwaith eiriolaeth, yn enwedig mewn perthynas â'r UE, Cyngor Ewrop a'r Cenhedloedd Unedig; a hefyd yn gweithio i ddatblygu cynigion polisi ar lefel ryngwladol i hyrwyddo a chefnogi ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol.
- 7.3 Yn yr un modd, yn ei chyfraniad hithau, edrychodd Elin Haf Gruffydd Jones ar fanteision a chryfderau rhyngweithiadau traws-Ewropeaidd ar gyfer cymunedau ieithoedd lleiafrifol gwahanol. Ynghyd â'r manteision ymarferol iawn a all ddeillio o weithgarwch rhwydweithio rhwng gwahanol sefydliadau llywodraethol neu anllywodraethol (e.e. rhannu arferion gorau), dadleuodd ei bod hefyd yn hanfodol cydnabod y manteision cysyniadol dyfnach sy'n gallu deillio o ymgysylltu rhyngwladol. Yn seiliedig ar ei blynnydoedd o brofiad yn gweithio gyda Mercator, dywedodd Jones fod rhwydweithiau fel y rhai a nodir uchod (7.1) yn rhoi cyfle i aelodau cymuned iaith lleiafrifol godi uwchlaw normau cysyniadol neu ddisgyrsiol hirsefydlog a all fod yn gysylltiedig â'u cyd-destun gwladwriaethol penodol, ac i fod yn agored i syniadau, termau neu gysyniadau newydd y gellir eu defnyddio i gyfleu eu sefyllfa a'u nodau mewn modd newydd. Ymhlith yr enghreifftiau diriaethol mae'r modd y mae dywediadau fel normaleiddio iaith a siaradwyr newydd wedi cael eu rhannu a'u defnyddio gan eiriolwyr ieithoedd lleiafrifol mewn gwahanol gyd-destunau i ail-gysyniadoli ac ail-gyfleu dadleuon ynghylch hyrwyddo defnydd iaith neu gaffael iaith.
- 7.4 Dadleuodd Jones hefyd fod rhyngweithiadau traws-Ewropeaidd yn caniatáu datblygiad argymhellion mewn ymateb i heriau cyffredin sy'n wynebu ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol, megis effaith digideiddio gwybodaeth ar ieithoedd lleiafrifol. Er y nodwyd cryfderau a manteision cyfnewid arferion a gwerth gwaith rhwydweithio, mae cyfyngiadau ariannol yn ei gwneud yn anos



Adfywio: Adroddiad Briffio Gweithdy 4

cyfnewid, yn enwedig ymysg rhai grwpiau. Pwysleisiwyd y dylid hyrwyddo partneriaethau a rhwydweithiau ar draws grwpiau iaith er mwyn osgoi bod y rhyngweithio hwn yn brofiad ail law yn unig.

- 7.5 Yn ei gyfraniad, pwysleisiodd Emyr Lewis gyfraniad ffurfiannol y gwaith ar lefel Ewrop ac yn fyd-eang er budd ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol. Gan gyfeirio at ei brofiadau fel cyn aelod o'r Pwyllgor Arbenigwyr ar gyfer Siarter Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol Cyngor Ewrop, dadleuodd Lewis y gall offerynnau rhyngwladol chwarae rhan bwysig wrth sicrhau cydnabyddiaeth o iaith, yn enwedig yng nghyd-destun gwladwriaethau canolog cryf lle bu tuedd hanesyddol i wrthwynebu unrhyw gydnabyddiaeth swyddogol i ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol.
- 7.6 Ac eto, pwysleisiodd Lewis yr angen i werthfawrogi'r gwahaniaeth rhwng cyfraith/confensiynau rhyngwladol a deddfwriaeth uwch-wladwriaethol (e.e. deddfwriaeth yr UE). Efallai na fydd y gwladwriaethau yn gweithredu'r cyntaf o reidrwydd, ond mae'n ofynnol iddynt integreiddio'r olaf i'w fframweithiau cyfreithiol domestig. O ganlyniad, fel confensiwn rhyngwladol, mae Siarter Ieithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol Ewrop yn hyrwyddo buddiannau cymunedau ieithoedd lleiafrifol, ond nid yw'n creu hawliau y mae'n ofynnol i lywodraethau eu gweithredu. Yn hytrach, disgwylir i lywodraethau gwladwriaethol adrodd ar eu cynnydd wrth weithredu adrannau perthnasol o'r Siarter. O ganlyniad, mae cyfyngiadau'r Siarter fel arf rhyngwladol ar gyfer hyrwyddo iaith yn dod yn amlwg iawn pan fo problemau gweithredu cyffredin ar draws achosion. Yr achosion mwyaf problematig i'r Pwyllgor Arbenigwyr yw lle mae materion sylfaenol yn ymwneud â chydymffurfiaeth â'r trefniadau, er enghraifft diffyg adrodd ar ran y DU ar gynnydd yn achos Gogledd Iwerddon.
- 7.7 Gan adeiladu ar y sylwadau hyn, awgrymodd Jarmo Lainio, aelod cyfredol o Bwyllgor Arbenigwyr y Siarter, fod diffyg gweithredu yn dueddol o fod yn amlwg mewn tri math o sefyllfa. Yn gyntaf, pan nad yw llywodraethau is-wladwriaethol yn gweithredu ymrwymadau a wnaed ar lefel y wladwriaeth o ran confensiynau rhyngwladol, a hynny oherwydd ymreolaeth gref. Yn ail, achosion lle mae polisïau ar lefel y wladwriaeth yn dirymu ymdrechion ar lefel ranbarthol i gymryd camau a fyddai'n arwain at weithredu'r Confensiwn. Yn drydydd, mewn rhai gwladwriaethau ffederal, mae llywodraeth ganolog yn rhy wan i weithredu'r Confensiwn. Y ffactorau allweddol a ystyriwyd i ddylanwadu ar y modd y gweithredwyd y Confensiwn mewn gwahanol achosion oedd y cyd-destun hanesyddol a newidiadau gwleidyddol, gyda'r olaf yn cynnwys canlyniadau etholiadau a newidiadau personél o fewn llywodraethau (e.e. newidiadau gweinidogol sy'n arwydd o newid safbwynt).



Gweithdy 4: Adfywio iaith a llywodraethiant newydd

Diwrnod 1: dydd Iau 14 Chwefror 2019

Lleoliad: Ystafell y Wasg, Y Senedd, Bae Caerdydd

10.15 Croeso a chyflwyniad

10.30 **Sesiwn 1**

Michael Keating (Prifysgol Aberdeen)

Ail-fframio Ewrop: tiriogaeth, cymuned, sefydliadau a pholisi

11.15 Toriad: te/coffi

10.30 Sesiwn 2

Linda Cardinal (Prifysgol Ottawa)

Llywodraethu cyfundrefnau iaith

Huw Lewis ac Elin Royles (Prifysgol Aberystwyth)

Adfywio iaith a llywodraethu ar sawl lefel

12.45 Cinio

10.30 Sesiwn 3

John Walsh (Prifysgol Genedlaethol Iwerddon, Galway)

Llywodraethu Gwyddeleg yn yr oes neoryddfrydol: y wladwriaeth yn encilio dan gochl grymuso

Rhys Jones (Prifysgol Aberystwyth)

Hyrwyddo iaith, sefydliadau cymdeithas sifil a'r wladwriaeth gysgodol

11.15 Toriad: te/coffi

3.30 Sesiwn 4

Peter Kraus (Prifysgol Augsburg)

Globaleiddio a llywodraethu ieithyddol

4.15 – 4.30 sylwadau i gloi



Adfywio: Adroddiad Briffio Gweithdy 4

Diwrnod 2: dydd Gwener 15 Chwefror 2019

Lleoliad: Canolfan y Pierhead, Bae Caerdydd

10.00 Sesiwn 1

Tueddiadau llywodraethiant cyfredol ym maes adfywio iaith
Trafodaeth bord gron gyda chyfraniadau gan:

- Meirion Prys Jones (cyn-Brif Weithredwr, Bwrdd yr Iaith Gymraeg)
- Seán Ó Cuirreáin (cyn-Gomisiynydd y Wyddeleg)
- Allan Campbell (cyn-Brif Weithredwr, Bòrd na Gàidhlig)

11.15 Toriad: te/coffi

11.45 Sesiwn 2

Rob Dunbar (Prifysgol Caeredin)
Rôl y llysoedd mewn hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol

Diarmait Mac Giolla Chríost (Prifysgol Caerdydd)
Comisiynwyr iaith swyddogol ac adfywio iaith

13.00 Cinio

14.00 Sesiwn 3

Cloriannu arwyddocâd y lefel uwch-wladwriaethol o ran adfywio iaith
Trafodaeth bord gron gyda chyfraniadau gan:

- Emyr Lewis (cyn aelod o Bwyllgor Arbenigwyr Cyngor Ewrop ar y Siarter ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol)
- Jarmo Lainio (Rhwydwaith Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol//Prifysgol Stockholm)
- Paul Bilbao (Ysgrifennydd Cyffredinol, Kontseilua ac Is-Lywydd rhwydwaith Cydraddoldeb Iaith Ewrop)
- Elin Haf Gruffudd Jones (Mercator)

3.30 Crynhoi a ffarwelio